Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

**Canllawiau a Chod y Cwricwlwm I Gymru ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb – Cwestiynau Ymgynghoriad**

**Ymateb ymgynghoriad**


**Enw:** Sarah Capstick
**Sefydliad:** Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru
**Rhif ffon:** 07384469664
**Cyfeiriad:**
Local Government House
Drake Walk
Cardiff
CF10 4LG


**Math o ymatebydd (dewisiwch un o'r canlynol)**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Plentyn neu berson ifanc | ☐ | Cynrychiolydd cyflogwr/busnes | ☐ |
| Rhiant/gofalwr | ☐ | Corff proffesiynol/ grŵp diddordeb | ☐ |
| Llywodraethwr ysgol neu aelod o bwyllgor rheoli'r ysgol | ☐ | Sector gwirfoddol (grŵp cymunedol, gwirfoddolwr, grŵp hunangymorth, menter gymdeithasol neu gydweithredol, crefyddol, sefydliad dielw) | ☐ |
| Ymarferydd ysgol prif ffrwd (pennaeth, athro, cynorthwyydd, addysgu, ac ati) | ☐ | Consortiwm rhanbarthol | ☐ |
| Darparwyr EOTAS (Staff UCD, staff ysgol annibynnol, darparwr arall, ac ati | ☐ | Awdurdod lleol | ☐ |
| Addysg uwch (gan gynnwys prifysgolion/sefydliad au academaidd) | ☐ | Addysg bellach | ☐ |
| Gwleidydd (aelod o'r Senedd, cynghorwyr sir, AS, ac ati) | ☐ | Grŵp ymatebwyr eraill nad ydynt wedi'u rhestru uchod, nodwch:<br><br>Rhwydwaith Cymunedau Diogelach Cymru | ✓ |
| Lobïwr | ☐ | Gwell gennyf beidio â dweud | ☐ |

**Cwestiwn 1 – Ydych chi'n cytuno fod yr eglurhad o'r diffiniad o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn eglur?**

| Anghytuno'n gryf | ☐ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ | Cytuno | ✓ | Cytuno'n gryf | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Eglurwch eich ateb:**

Mae'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn eglur. Fodd bynnag mae yna ddiffyg sylw i berthnasoedd iach a chydsynio o fewn y diffiniad.

**Cwestiwn 2 – Ydych chi'n cytuno fod yr egwyddorion ar gyfer gwreiddio Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn glir?**

| Anghytuno'n gryf | ☐ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ✓ | Cytuno | ☐ | Cytuno'n gryf | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Eglurwch eich ateb:**

Tra bod gwybodaeth ynglŷn â Thrais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig, a Thrais Rhywiol yn cael ei chynnwys nid oes yna unrhyw bwyslais ar nodi'r arwyddion rhybudd cynnar a beth i'w wneud a fyddai'n atal hyn. Diffyg pwyslais ar gydsynio, perthnasoedd iach, trosedd casineb neu aflonyddu ar fenywod a merched ar y stryd a sut i herio hyn yn ddiogel.

**Cwestiwn 3 – Ydych chi'n cytuno bod strwythur a chynnwys y canllawiau yn glir?**

| Anghytuno'n gryf | ☐ | Anghytuno | ✓ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ | Cytuno | ☐ | Cytuno'n gryf | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Eglurwch eich ateb:**

Mae angen canolbwyntio mwy ar berthnasoedd iach (gan gynnwys gorfodi a brawychu). Y peryglon o feithrin perthynas amhriodol o ran atal camfanteisio rhywiol a throseddol, gan fod hyn yn ymwneud â pherthnasoedd.

**Cwestiwn 4 – Rydym yn cynnig bod y cynnwys a nodwyd yn y tri cham eang o'r canllawiau yn dod yn orfodol fel rhan o'r cod ACRh. Ydych chi'n cytuno eu bod yn cynnwys beth sy'n bwysig o ran ACRh ar gyfer oedran a chamau datblygiadol yr holl ddysgwyr?**

| Anghytuno'n gryf | ☐ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ | Cytuno | ✓ | Cytuno'n gryf | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Eglurwch eich ateb:**

Rydym yn cytuno er y dylai'r cyntaf fod ar berthnasoedd iach ac nid dim ond perthnasoedd. Ni chrybwyllir cydsynio, aflonyddu, troseddau casineb na thorri'r cylchoedd i atal trais na chaethwasiaeth fodern a chamfanteisio.

**Cwestiwn 5 – Ydych chi'n cytuno fod yr adran ar y cod ACRh o fewn y canllawiau yn eglur ac yn briodol?**

| Anghytuno'n gryf | ☐ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ✓ | Cytuno | ☐ | Cytuno'n gryf | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Eglurwch eich ateb:**

Dim ymateb.

**Cwestiwn 6 – Ydych chi'n cytuno bod elfennau gorfodol y canllawiau (y cod ACRh) y rhai cywir? Oes yna unrhyw beth ar goll y dylid ei gynnwys?**

| Anghytuno'n gryf | ☐ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ | Cytuno | ✓ | Cytuno'n gryf | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Eglurwch eich ateb:**

Mae angen ymdrin â gweithgarwch meithrin perthynas amhriodol, sy'n weithgarwch nad yw'n iach, gan y gall arwain at gamfanteisio'n rhywiol, camfanteisio troseddol gan gynnwys ymwneud â llinellau sirol ac fel cludwyr arian.
Hefyd ni chrybwyllir Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod a Phriodas dan Orfod ac eithrio yn y rhestr termau, dau beth y gallai'r rhai hynny y mae'r cwricwlwm i fod i'w cyrraedd ei brofi. Mae gwybod sut i gael cymorth felly'n hanfodol.

**Cwestiwn 7 – Ydych chi'n cytuno fod y canllawiau yn cynnig gwybodaeth berthnasol i gefnogi ymarferwyr wrth iddynt ddylunio eu cwricwlwm ysgol ar gyfer ACRh?**

| Anghytuno'n gryf | ☐ | Anghytuno | ✓ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ | Cytuno | ☐ | Cytuno'n gryf | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

**Eglurwch eich ateb:**

| |
|---|
| Mae yna rai meysydd allweddol ar goll o fewn y canllawiau a hefyd yn y rhestr termau. Nid oes gwybodaeth yn ymwneud â meithrin perthynas amhriodol, rheolaeth drwy orfodaeth nac aflonyddu gan gynnwys troseddau casineb. Gallai cynnwys y rhain arwain at atal perthnasoedd nad ydynt yn iach yn y dyfodol a gwella cydlyniant cymunedol lle mae pobl yn teimlo'n fwy diogel yn eu cymunedau a gartref. |

**Cwestiwn 8 – Hoffem gael eich barn ar yr effaith y byddai'r canllawiau statudol drafft ar ACRh yn ei gael ar y Gymraeg, yn benodol o ran:**

i) Cyfleoedd I bobl ddefnyddio'r Gymraeg
ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

**Sylwadau cefnogol**

| |
|---|
| Dim ymateb. |

**Cwestiwn 9 – Eglurwch hefyd sut ydych yn credu y gellid ffurfio neu newid y canllawiau statudol drafft ACRh arfaethedig er mwyn cael:**

i) effeithiau positif neu fwy o effeithiau positif o ran y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
ii) fel nad oes effeithiau andwyol ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Cylwadau cefnogol**

| |
|---|
| Dim ymateb |

**Cwestiwn 10 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y gofod hwn i sôn amdanynt.**

| |
|---|
| |

**Mae ymatebion i'r ymgynghoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os yw'n well gennych gadw eich ymateb yn ddi-enw, ticiwch yma:** ☐